

Insight driving innovation and impact

# Astudiaeth Achos BE Football: Ysgol Sant Christopher

Meithrin hyder a hunan-gred merched drwy bêl-droed.

Mai 2022

**Credu** yn nyfodol pob plentyn

# Cyflwyniad

Ysgol Sant Christopher yn Wrecsam yw un o'r ysgolion anghenion dysgu ychwanegol mwyaf yng Nghymru. Mae'n ysgol gymysg ac mae ganddi tua 300 o ddisgyblion rhwng 6 a 19 oed ar hyn o bryd.

Ymunodd Ysgol Sant Christopher â'r rhaglen BE Football yn 2020. Mae BE Football yn cael ei chyflawni gan yr Youth Sport Trust a'i hariannu gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru. Ei nod yw cyflwyno pêl-droed i ysgolion drwy ddull sgiliau bywyd i ferched. Mae BE Football yn archwilio sut gall athrawon ennyn diddordeb merched mewn addysg gorfforol y cwricwlwm drwy bêl-droed, yn nodi ac yn datblygu sgiliau bywyd, ac yn helpu i rymuso merched i arwain gweithgareddau pêl-droed i bobl eraill.

## Cefndir

Mae Ysgol Sant Christopher wedi gweithio gyda'r Youth Sport Trust ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru o'r blaen, ond mae bob amser yn awyddus i gymryd rhan mewn prosiectau newydd sy'n rhoi syniadau newydd i'r staff, a phrofiadau newydd i'r disgyblion.

Cyn BE Football, roedd yr ysgol eisoes yn cynnig pêl-droed ar y cwricwlwm am gyfnod o wyth wythnos bob blwyddyn ac roedd yr ysgol yn cymryd rhan yn y twrnament pêl-droed yn Wrecsam gyda thîm cymysg yn rheolaidd. Ar draws pob camp, roedd merched yn chwarae yn yr un tîm â'r bechgyn yn aml. Ond dim ond cyfran isel o'r merched yn yr ysgol oedd yn chwarae pêl-droed. Hefyd roedd gan yr ysgol nifer isel o arweinwyr ifanc a oedd yn cefnogi'r ddarpariaeth chwaraeon ar draws yr ysgol, ond roedd y grŵp hwn yn cynnwys mwy o fechgyn na merched fel arfer. Roedd Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar raglen arweinyddiaeth yr ysgol gan ei fod wedi atal llawer o'r gwaith yr oedd arfer ei wneud gydag ysgolion iau lleol.

## Gweithgareddau

### Hyfforddiant

Cymerodd chwech o Ddylanwadwyr BE Football ran mewn cwrs hyfforddi ar-lein<sup>1</sup>. Roedd hwn wedi ysbrydoli'r merched ac wedi'u cyflenwi â'r sgiliau a'r wybodaeth i fod yn arweinwyr ifanc. Roedd ymarferydd arweiniol BE Football wedi tynnu sylw at yr heriau o ran cadw diddordeb pobl ifanc wrth ddarparu'r cwricwlwm ar-lein yn ystod Covid-19, ond pwysleisiodd fod hyfforddiant BE Football wedi cael ei ddarparu'n dda iawn ac wedi llwyddo i ennyn diddordeb yr holl ferched.

**“Roedd yr hyfforddiant yn rhyngweithiol iawn. Roedden nhw wedi ennyn diddordeb y plant, a oedd wedi canolbwyntio'n llwyr am y ddwy awr gyfan.”**

**(GLYN JONES, PENNAETH CYNORTHWYOL YN YSGOL SANT CHRISTOPHER)**

---

<sup>1</sup> Oherwydd Covid-19, roedd rhaid darparu'r hyfforddiant ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb. Astudiaeth Achos BE Football: Ysgol Sant Christopher

## Digwyddiad lansio

I lansio BE Football, cynhaliodd yr ysgol ddiwrnod hwyl Cwpan y Byd. Dyma'r digwyddiad cyntaf i'r ysgol ei gynnal ar ôl Covid-19. Roedd yr ysgol yn awyddus i gynifer o ferched â phosib, o bob blwyddyn, gymryd rhan yn y digwyddiad. Y Dylanwadwyr BE Football oedd yn rhedeg y digwyddiad, a hynny gyda chymorth rhai o'r bechgyn a oedd yn arweinwyr chwaraeon yn yr ysgol hefyd. Pwysleisiodd yr ymarferydd arweiniol yn yr ysgol fod y merched yn gyfrifol am arwain y digwyddiad ac mai rôl ategol yr oedd gan y bechgyn (e.e. gosod y conau a threfnu'r caeau). Cafodd y bobl ifanc eu rhannu'n bedwar grŵp ar sail eu symudedd corfforol a'u gallu pêl-droed, wedyn roedd pob tîm yn dewis un person ifanc o bob grŵp i ymuno â'r tîm. Roedd cyfyngiadau ar beth roedd rhai pobl ifanc yn cael ei wneud yn y gêm, e.e. efallai nad oeddent yn cael sgorio nes eu bod wedi pasio bedair gwaith.

“Y peth da am y digwyddiad oedd mai'r merched oedd yn ei arwain.”

(GLYN JONES, PENNAETH CYNORTHWYOL YN YSGOL SANT CHRISTOPHER)

## Sesiynau pêl-droed

Mae'r Dylanwadwyr BE Football hefyd wedi darparu sesiynau pêl-droed i ferched yn ystod amser cinio ac wedi cefnogi rhywfaint o'r ddarpariaeth pêl-droed yn y cwricwlwm, sydd wedi cynnwys 34 o ferched a dim un ohonynt wedi chwarae pêl-droed yn rheolaidd o'r blaen.

Fel rhan o Wythnos Genedlaethol Chwaraeon Ysgol ym mis Mehefin, mae'r ysgol yn cynnal twrnament pêl-droed cymysg fel arfer ond eleni, mae'r Dylanwadwyr BE Football yn arwain twrnament i ferched yn unig. Dywedodd yr ymarferydd arweiniol na fyddai hyn wedi digwydd heb BE Football.

## Manteision

### Hyder a hunan-gred fel arweinwyr



Mae BE Football wedi rhoi cyfle newydd i bobl ifanc ymgymryd â swyddogaethau arweinyddiaeth ac mae hynny yn ei dro wedi'u helpu i gredu ynddyn nhw eu hunain. I ddechrau, nid oedd un o'r Dylanwadwyr BE Football yn cymryd rhan weithredol ac roedd hi'n dibynnu ar bobl eraill i wneud llawer o'r gwaith. Mae BE Football wedi magu ei hyder yn raddol ac mae hi bellach yn cynnig ei syniadau ei hun, yn arwain, ac eisoes wedi cofrestru ar gyfer flwyddyn nesaf.

“Maen nhw [y dylanwadwyr] yn meddwl, aros funud, dydy'r bechgyn ddim wrth y llyw, alla i wneud hyn. Ni oedd yn gyfrifol, sy'n golygu bod pobl yn credu ynom ni.”

(GLYN JONES, PENNAETH CYNORTHWYOL YN YSGOL SANT CHRISTOPHER)

“Roedd wedi rhoi cyfle i rai o'r merched llai hyderus ffynnu.”

(GLYN JONES, PENNAETH CYNORTHWYOL YN YSGOL SANT CHRISTOPHER)

## Cyfleoedd pêl-droed newydd



Mae'r rhaglen BE Football wedi rhoi cyfleoedd newydd i ferched gymryd rhan mewn gweithgareddau pêl-droed. Dywedodd yr ymarferydd arweiniol, oherwydd bod gan y merched anghenion ychwanegol, fod llawer yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd pêl-droed addas yn y gymuned, sy'n pwysleisio pwysigrwydd y ddarpariaeth hon ymhellach.

I ddechrau, roedd rhai o'r merched yn swil iawn ac nid oeddent yn dymuno cymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd y Dylanwadwyr BE Football wedi gwneud y gweithgareddau'n rhai hwyliog ac wedi'u teilwra i'r merched a oedd yn cymryd rhan (e.e. os oeddent yn dymuno dechrau drwy daflu'r bêl yn hytrach na'i chicio, roeddent yn annog hynny). Heb unrhyw bwysau i gymryd rhan, dechreuodd y merched fagu hyder a chymryd rhan yn y gweithgareddau.

**“Mae'r merched sy'n cymryd rhan yn cael hwyl, mor syml â hynny. Os ydyn nhw'n cael hwyl, fe ddôn nhw nôl.”**

**(GLYN JONES, PENNAETH CYNORTHWYOL YN YSGOL SANT CHRISTOPHER)**

Roedd ymarferydd arweiniol BE Football hefyd wedi pwysleisio pa mor werthfawr yw'r ffaith mai pobl ifanc sy'n darparu'r gweithgareddau; dywedodd fod y bobl ifanc yn aml yn ymateb yn well i un o'u cyfoedion yn eu hannog i gymryd rhan, yn hytrach nag un o'r athrawon; bydd rhai'n teimlo'n fwy cyfforddus yng nghwmni eu cyfoedion – maen nhw'n gallu cydymdeimlo â nhw a chefnogi ei gilydd.

## Y dyfodol

Mae rhagor o ddisgyblion newydd ag anawsterau dysgu yn ymuno ag Ysgol Sant Christopher felly o fis Medi 2022, bydd ganddynt berson pwrpasol yn adolygu ac yn datblygu eu cynnig arweinyddiaeth i bobl ifanc, i wneud yn siŵr ei fod yn addas i'r diben yn y dyfodol. Bydd BE Football yn rhan o'r cynnig hwn.

## Cyngor Campus

- ✓ Rhannwch gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect a'r gweithgareddau cadarnhaol sy'n cael eu gwneud â'r bobl ifanc eu hunain, yn ogystal ag ysgolion eraill, partneriaid a theuluoedd.
- ✓ Gwnewch yn siŵr bod gennych gefnogaeth yr uwch reolwyr. Bydd hyn yn cefnogi darpariaeth y prosiect, e.e. gallant helpu i wneud yn siŵr bod gan bobl ifanc ddigon o amser yn ystod y diwrnod ysgol i ymrwymo i'r prosiect. Ar ben hynny, bydd cefnogaeth arweinwyr addysg gorfforol yn helpu i wreiddio newidiadau yn y cwricwlwm.
- ✓ Gwnewch y sesiynau'n rhai hwyliog a pheidio â rhoi pwysau ar bobl ifanc i gymryd rhan.



Youth Sport Trust  
SportPark  
Loughborough University  
3 Oakwood Drive  
Loughborough  
Swydd Gaerlŷr  
LE11 3QF

01509 226600  
research@youthsporttrust.org  
[www.youthsporttrust.org](http://www.youthsporttrust.org)



Rhif Cofrestru'r Elusen 1086915  
Rhif Cofrestru'r Cwmni 4180163